

Trosolwg o'r portffolio

Tuesday, December 31, 2019 1:14 PM

Enw'r myfyriwr: Matthew James

Rhif myfyriwr: 1902326

Llwybr: TAR Cynradd gyda SAC.

Teitl yr aseiniad: Portffolio sy'n arddangos adfyfrio beirniadol ar y cynllunio a'r gweithrediad dair egwyddor addysgeg Donaldson (2015).

Dolen i'r ddogfen OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o/g/personal/1902326_student_uowtsd_ac_uk/Elyc7kAwK51loGPhLNt6uYgBcE-KKl41hmgMOyAVfo1pzA?e=YmXPYw

Fy nharged personol sy'n deillio o'r aseiniad diwethaf	Sut yr ydwyf wedi gwneud cynnydd tuag at y targed yn yr aseiniad yma
<i>"Parhau i wirio gwaith ysgrifenedig yn ofalus ac, wrth ddarllen drosto, sicrhau bod ystyr yr hyn a drafodir yn glir i eraill. Wrth or-gymhlethu brawddegau, gellid</i>	Rwyf wedi darllen fy ngwaith yn ofalus y tro yma er mwyn i ddatrys camgymeriadau gramadegol. Rwyf wedi ysgrifennu brawddegau byrrach a symlach na'r aseiniad diwethaf ac wedi dyfynnu o iaith wreiddiol y llenyddiaeth

Mae'r portffolio proffesiynol yma yn adfyfrio'n feirniadol ar y cynllunio a'r gweithrediad ar dair o ddeuddeg egwyddor addysgeg Graham Donaldson, a amlinellwyd ganddo ef yn Donaldson (2015).

Gweithredwyd yr egwyddorion yma yn ystod Bloc1 o Brofiad Addysgu Proffesiynol (PAP) cyntaf yr awdur. Cynhaliwyd y profiad yma ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2019 efo'i dosbarth Blwyddyn Chwech.

Ar gyfer pob egwyddor mae'r awdur wedi casglu, coladu ac adfyfrio'n feirniadol ar dystiolaeth ac enghreifftiau eglurhaol o'i waith ef sy'n deillio o Bloc1, PAP1. Yna, awgryma'r awdur argymhellion ar gyfer sicrhau cynnydd pellach dros ei ddisgyblion.

Pwrpas yr ysgrifennu yma yw rhoi cyfle i'r awdur adfyfrio ar waith ei hunain a phwyso a mesur ar yr hyn aeth yn dda, a'r hyn aeth ddim cystal. Mi fydd y portffolio yma'n helpu sicrhau gwelliant yn ei hymarfer yn y dyfodol.

Fe drafodwyd profiadau'r awdur yn y person cyntaf, taw profiad personol ac uniongyrchol yr awdur yw'r rhain a nodwyd. Teimlai'r awdur bod y pwyntiau yn cael ei mynegi'n fwy eglur pan gaiff eu hysgrifennu yn y person cyntaf yn hytrach na'r trydydd person.

Trafodaeth ynghylch y llenyddiaeth ar addysgu a dysgu effeithiol ynghylch y tair egwyddor addysgeg Donaldson a ddewiswyd.

Thursday, January 2, 2020 9:43 PM

"Mae addysu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu."

Dros hanner ganrif yn ôl, awgryma David Ausubel taw'r ffactor mwyaf pwysig sy'n dylanwadu ar addysgu yw beth mae'r dysgwyr yn ei gwybod yn barod. Dylid athrawon canfod hwn a dysgu yn unol â hynny (Ausubel 1968; Wiliam 2011). Ehanga Dylan Wiliam ar hyn, gan ddweud "it is only through assessment that we can find out whether a particular sequence of instructional activities has resulted in the intended learning outcomes" (Wiliam 2011). Mae yna amryw o ddiffiniadau ar asesu ar gyfer dysgu; cyfaddef Wiliam (2011) tra bod ei ddiffiniad ef a Paul Black yn Black, Wiliam (2009) yn eithaf sbesiffig, mae'n fodd o ddarganfod a yw asesiad wedi gweithredu yn ffurfiannol. Yn ymarferol, mae hwn yn galluogi i'r athro teilwra ei chyfarwyddiadau yn fwy cul ar gyfer disgybl neu grŵp penodol nag mewn absenoldeb asesiad ffurfiannol.

Dadlau Black, Wiliam (1998a) "the quality of the interaction between pupil and teacher ... is at the heart of pedagogy". Mae hwn yn adlewyrchu llawer o'r llenyddiaeth cynnar asesu ar gyfer dysgu, ble mae pwyslais mawr ar y rhan perthynol o asesu. Anghytuna Drummond (2003) efo Black a Wiliam a'i fodel nhw; mae ei gwaith hi ar asesu ar gyfer dysgu yn disgrifio "the ways in which, in our everyday practice, we observe children's learning, strive to understand it, and then put our understanding to good use" (Marshall, Jane Drummond 2006). Mae safbwynt Drummond (2003) yn osgoi'r model o asesu sydd yn debyg i lawer o waith Black a William, lle "the assessor collects the evidence, makes judgements on the basis of that evidence, and then certain events follow". Yn gyferbyniol efo rhain, ystyria Drummond (2003) y proses o asesu ar gyfer dysgu yn "essentially provisional, partial, tentative, exploratory and, inevitably, incomplete".

Yn sgil hynny, mae agweddau Vygotsky a Dewey ar addysgu sydd wedi seilio ar weithgareddau (gweler Bredo 1997) yn bodoli fel y rhai mwyaf buddiol yn nhermau sefydlu ac ymestyn y cysylltiad rhwng asesiad a chynnydd efo addysgu annibynnol. Ymestynna Engeström (1999) ar waith Vygotsky. Yn hollol bwysig wrth werthfawrogi pwysigrwydd asesu ar gyfer dysgu yw gwaith Vygotsky a Dewey ar addysgu. Syniad nhw yw'r cynnydd tuag at ymreolaeth y myfyriwr a rôl mae'r athro yn chwarae wrth geisio hwyluso'r ymreolaeth yma trwy'r gweithgareddau maent yn ei cynnig. Y cysyniad mwyaf amlwg yw'r Parth Dysgu Procsimol (Vygotsky, Cole et al. 1978). Yn ychwanegol, mae diffiniad Dewey o "'progressive' education as 'high organization based upon ideas". Medd ef yr her yw "to discover and put into operation a principle order and operation which follows from understanding what the educative experience signifies" (Dewey 1968, t. 28-29). Er bod Vygotsky a Dewey yn anghytuno ar nodweddion pwysig o'i dealltwriaeth o addysgu, maen nhw'n rhannu safbwynt weddol debyg ar natur adeiladol gymdeithasol addysgu a'r awydd i hwyluso ymreolaeth y disgybl (Bredo 1997; Michael Glassman 2001). Dadlau Wiliam, Thompson (2008) wrth gynnal asesiadau ffurfiannol dylid cynnwys tair prif proses - "identifying where the learners are in their learning, where they are going, how to get there" a chaiff eu mynegu gan tair grŵp o bobl: yr athro, y dysgwr a'r cyfaill.

Yn ymarferol, gwynebir problemau gan athrawon wrth ceisio gweithredu asesu ar gyfer dysgu, efallai yn deillio o'i cham ddehongliad o asesu ar gyfer dysgu. Amlinella Earl (2013) mae nifer o athrawon sy'n adfocau asesu ar gyfer dysgu yn defnyddio technegau asesu ar gyfer dysgu ond ar gyfer y pwrpas anghywir. Defnyddir mini asesiad ar gyfer asesiadau crynodol. Ar ôl adolygiad llenyddol drylwyr, fe crynhoa Marshall a Drummond:

The implementation of AfL in the classroom, then, becomes about much more than the application of certain procedures ... but more about the realization of certain principles of teaching and learning (Marshall, Jane Drummond 2006).

"Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer."

Dywed Barnes "Traditional pedagogical methods may, however, be inappropriate in a twenty-first century society" (Barnes 2015, t. 185). Y neges mae e'n cyfleu yw rhaid addasu ein dulliau addysgeg ar gyfer y byd heddiw. Dadlau Barnes (2015, t. 193) er bod byd plant y dydd presennol yn un technolegol, maen nhw'n bodoli i ddysgu ac addysgu llawer wrth yr oedolion sydd o'i gwmpas. Awgryma Gardner tair prif ffyrdd y mae plant yn dysgu wrth oedolion: "direct or unmediated learning"; "imitation"; a:

"outside the context learning in which a skill is introduced and practised under adult supervision but in a situation unrelated to the need for the skill" (Gardner 1993: 34-8; Barnes 2015, t. 193).

Noda Gardner o fewn cymdeithasau technolegol modern, mae'r mwyafrif o addysgu ffurfiol yn cymryd lle mewn "specialized institutions far removed from the context in which the knowledge will be applied". Hawlia Barnes (2015, t. 193) mae'r addysgu di-cyd-destunol sydd wedi dominyddu yn ysgolion Gorllewin y byd yn colli mas ar gyfleoedd enfawr ar gyfer "unmediated and imitation learning". Neges Barnes yw mai'r ffyrdd o addysgu yma yn cyd-blethu; wrth beidio â rhoi cyd-destun dilys i'r addysgu nid ydym yn hwyluso cyfleoedd i addysgu trwy strategaethau "unmediated and imitation" - rhaid cael y cyd-destun dilys sydd tu fas o gyd-destun yr addysgu er mwyn gymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd mewn ffordd drawsgwricwlaidd.

Yn ymarferol yng Nghymru, sylweddolir Ysgol Gynradd Ty'n y Wern ei chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd (Estyn 2016). Cynhalir yr ysgol yma themâu megis Gŵyl Flynyddol y Celfyddydau a Phrosiectau Treftadaeth Cymru. Mae'r rhain yn hwyluso cyfle i'u fyfyrwyr i gymhwyso a datblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn bellach ar draws y cwricwlwm. Cynllunnir y staff yr ysgol y themâu yn ofalus fel eu bod yn cydgysylltu ac er mwyn i'w disgyblion cymryd perchnogaeth o'u ddysgu nhw. Mae'r cynllunio yma yn sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys i'w ddisgyblion, sy'n rhoi ystod o brofiadau dychmygus ac ysgogol iddyn nhw (Estyn 2016).

Yn arbennig o gefnogi cwricwlwm trawsgwricwlaidd yw Barnes, cred ef:

Schools should be offering children a rich and varied palette of experiences. Exposure to the widest curriculum and the most powerful of experiences will be much more likely to help children discover their passions and identify personal strengths (Barnes 2015, t. 186).

Fel addysgwyr, ein rôl yw hybu datblygiad ein myfyrwyr yn nhermau eu diddordebau a'i chryfderau; gellir mynd mor bell â dweud bod cyfleoedd trawsgwricwlaidd yw un o'r ffactorau mwyaf dylanwadol er mwyn i'n myfyrwyr sylweddoli'r hyn sy'n eu hysbrydoli.

"Mae addysgu a dysgu da'n creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu."

Sylwir Barnes: "Children often remark that learning seems easier when it makes sense to them" (Barnes 2015, t. 158). Felly, rhaid i ni fel addysgwyr gosod ein gwersi o fewn cyd-destun sy'n berthnasol i fyfyrwr, ar gyfer i'r addysgu gwneud synnwyr iddyn nhw.

Meddylia Barnes: "Understanding and respecting the child's world, their popular culture and 'knowledge of living experience' is very important" (Barnes 2015, t. 192). Mewn cytûn efo Barnes yw Hattie; un o'i chwech arwyddbyst tuag at ragoriaeth mewn addysg yw:

Teachers need to be aware of what each and every student is thinking and knowing, to construct meaning and meaningful experiences in light of this knowledge (Pollard 2014, t. 113).

Prif ddadl Barnes (2015, t. 160) yw "relevant ... contexts provide some of the most powerful motivators for such learning". Wrth ebychu "such learning", mynna Barnes am addysgu 'dwfn' a chafodd ei harloesi gan ymchwilyr megis Marton (1997) a Entwistle (2000). Mae'r dyfyniadau uchod felly, yn crynhoi pwysigrwydd y ffactor cyd-destun dilys i'n myfyrwyr – rhaid i'r cyd-destun bod yn berthnasol iddyn nhw ar gyfer addysgu 'dwfn' i ddigwydd.

Yn ymarferol yng Nghymru, mae Ysgol Gynradd Pembre wedi newid ei harfer trwy gynllunio cwricwlwm hyblyg fel ei bod wedi teilwra o gwmpas diddordebau ei ddisgyblion (Estyn 2018). Sefydlwyd chwe pharth dysgu; mae'u henwau yn debyg iawn i Feysydd Dysgu a Phrofiad Yr Athro Donaldson (gweler Donaldson 2015). Yn ôl Estyn mae'r parthau yma wedi hybu dysgu annibynnol sy'n cael ei harwain gan y disgyblion. Cred Estyn bod hwn yn arfer effeithiol am fod y myfyrwyr "wedi gwneud cynnydd cryf, gan weithio'n fedrus a gwneud penderfyniadau pwysig am eu dysgu."

I gloi felly, fe roddir dyfyniad o Barnes am y pwysigrwydd o ddarparu addysg ystyrlon sydd efo cyd-destun dilys:


Learning new knowledge and skills does not happen without the child's agreement. Effective

teachers gain this agreement by working with the child to identify what is personally engaging to them and by linking it to the new knowledge required by the curriculum (Barnes 2015, t. 195).

"Mae addysu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu."

Tuesday, December 31, 2019 1:15 PM

Gosod meini prawf efo dysgwyr cyn i'r wers dechrau



Mae'r ffotograffau uchod ac isod yn gipluniau o'n dyddlyfr PAP. Hyn, rwyf wedi ysgrifennu fy nheimpladau a meddyliau yn ystod trafodaeth broffesiynol efo'n mentor ar ddiwedd pob dydd phan ddysgais wers. Arwyddir y tudalen gan fy mentor, fel arddangosir yr uchod â'r isod.

Rhowch sylw i'r pwynt bwled uwch yn y llun uchod, â'r pedwerydd pwynt yn y llun isod. Maes Dysgu a Phrofiad y wers uchod oedd y Dyniaethau – Addysg Grefyddol. Addysgir fy nisgyblion am Anne Frank yn ei thema yr *Ail Ryfel Byd* yn ystod Tymor yr Hydref. Gan ddaw Iddewiaeth oedd crefydd Anne Frank â'r rheswm pan gafodd ei herlid; roedd dysgu am ei chrefydd – Iddewiaeth – yn gam rhesymegol nesaf, am ei fod yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol arna hi. Bwriad y wers uchod oedd ysgrifennu cyfweiliad efo plentyn Iddewig yr un oedran a nhw, er mwyn gymhwyso ei wybodaeth a ymchwiliwyd yn y wers flaenorol. Gosodais feini prawf penodol am yr hyn o'n ni eisiau gweld er mwyn llwyddo yn y dasg; ac fe rannais y rhain efo'n nisgyblion cyn cychwyn ar y dasg. Dewisais giplun o'n dyddlyfr am fod hwn yn profi fy mod wedi defnyddio'r rhain ac nad oes ganai lluniau o finau yn cyflwyno'r meini prawf i'r dosbarth.

Y mis nesaf (Rhagfyr), es i yn bellach a defnyddio llais y disgybl er mwyn cyd-osod meini prawf am dasg llinell amser (gweler yr isod). Yn unol â'r thema'r *Ail Ryfel Byd*, nod y wers ddwbl oedd dewis a dethol (o tua 25 o ddigwyddiadau'r *Ail Ryfel Byd*) y 15 digwyddiad mwyaf pwysig yr *Ail Ryfel Byd*. Roedd angen i'r myfyrwyr meddwl yn gronolegol wrth wneud y llinell amser. Cynigais dau faen prawf fel man cychwyn, ac fe osododd fy nisgyblion (fesul tîm) meini prawf ar eu cyfer i lwyddo yn y dasg yma.

Ffocws gwert: Defnyddio llinell
amser i gynrychioli prif
digwyddiadau yf. Ail Ryfel Byd

- Gwers dros 2 yfnod oedl hwn
- Roedd y ddisgyblion yn ymrwngyno'n well i'r ddydd
cyn eu harniser chwarae a wracth tarddu ar
y wers (trefniant arferol y ddiwrnod)
- Teirorlaf roedd y themra yn un diddorol,
a wracth y ddisgyblion ei manyddau
- Rhannais y 2 feini prauſ gyda nhw yn
cychwyn, fe rhoddir 3 faen prauſ
y chwaraegol gan y ddisgyblion ei hwn,
gan hybu llais y flentyn.
- Defnyddiais amrywioeth o adnoddau a'r
bardd rhagweithiol.

Sylwadau fy mentor:

- Sicrhau bod y ~~gwybodaeth~~ gyfarwyddiadau yn hollol
glir pan yn gyflwyno'r wers
- nid o ran dibog paratoi ond o ran
ymarfer y cyflwyniad.
- Sicrhau amrywioeth o ran cyflwyno e.e. amrywio
ton fy llais a adnoddau

J. G. G.

$300 \times 20 = 4000 \rightarrow \text{£} 40.00$
 $200 \times 20 = 4000 \rightarrow \text{£} 40.00$
 $300 \times 10 = 3000 \rightarrow \text{£} 30.00$
 $40 \times 5 = 200 \rightarrow \text{£} 2.00$
 $50 \times 2 = 100 \rightarrow \text{£} 1.00$

40.00
 30.00
 15.00
 2.00
 1.00

 88.00

$\text{£} 47.50$ 35.50

$\rightarrow \text{Her}$

86.00
 34.00
 23.00
 12.50

 166.00
 121

88.00
 $- 71.00$

 17.00

Yndreth gwyb, Kyle!
 $\rightarrow$ Sofio rhai'r unedau lawr pob tro e.e. $\text{£} 35.50$

$7) 46 \times 28 = 461$
 $\begin{array}{r} \times 46 \\ 2080 \\ 83049 \end{array}$

330
 80
 49
 $+ 112$

 $461 \rightarrow$

$8) 85 \times 25 = 475$
 $\begin{array}{r} \times 85 \\ 2080 \\ 525025 \end{array}$

250
 166
 40
 $+ 125$

 $475 \rightarrow$

$9) 342 \times 36 =$

Yndreth dda, Mali!
 Ymarfer dy ffaithian llusoi
 - defnyddia'r grid sydd
 yn y cornel mathemateg

Gwaith Cywir

Maes Dysgu a Phrofiad y gwaith uchod oedd Mathemateg a Rhifedd. Bwriad y wers oedd dysgu sut i luosi rhifau dau a tri digid efo rhifau dau ddigid. Un dull o wneud yr hyn yw trwy ddefnyddio'r dull bocs. Yn aml, taw ond un ateb cywir sydd ar gael yn fathemateg, mae llawer o arbrofi a dyfalbarhau ar gael. Roedd cynllun marcio fy ysgol PAP1 yn fuddiol iawn, yn enwedig ar gyfer gwaith mathemateg. Defnyddir y lliw pinc ar gyfer "perffaieth" neu agweddau cadarnhaol; a gwyrrdd ar gyfer gwella. Dewisais y dystiolaeth yma am ei fod yn dangos cynllun marcio fy ysgol PAP1 yn gweithio ar ei orau. Ysgrifennais sylwad cadarnhaol mewn pinc, a rhoddir cylchau neu saethau am yr hyn oedd angen eu hail-gynnig.

Mini plenary

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Modelu lluosï rhifau 2 a 3 digid â rhif 2 ddigid drwy'r dull grid ar y bwrdd gwyn
Addysgu a Dysgu Craidd	- Monitro'r dasg rydd trwy grwydro a delio gyda chwestiynau a godwyd - Efallai mini-plenary os yw'r myfyrwyr yn trafferthu efo'i waith
Sesiwn Gloi	Arddangos sŷm ar y bwrdd

Maes Dysgu a Phrofiad y gwaith uchod oedd Mathemateg a Rhifedd. Bwriad y wers oedd dysgu sut i luosi rhifau dau a tri digid efo rhifau dau ddigid. Un dull o wneud yr hyn yw trwy ddefnyddio'r dull bocs. Defnyddiais mini plenaries sawl gwaith yn fy ngwersi. Nad oeddent wedi'i amserlenni pob tro; ambell waith, roedd eu hangen. Dewisais y dystiolaeth yma am gynlluniais (a gweithredais) mini plenary, am fod sawl cam i'r gweithrediad mathemategol yma.

"Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer."

Tuesday, December 31, 2019 1:15 PM

Gwers Thema ar y Blits – gymhwyso amryw o sgiliau...

Cynllun Gwaith - Ymson Y Blits 2.12.19

Cysylltiadau ystyrion a'r cwricwlwm - Gwelir cysylltiad manwl at linyddau ac elfennau'r cwricwlwm. Mae'r cynllunio yn fanwl tu hwnt.

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd: Yn ôl Llywodraeth Cymru, llythrennedd yw'r wers a fabwysiedir ar gyfer y briodas rhwng sgiliau pwnc e.e. hanes, daear ayyb a sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu. Yn sicr mae'r cynllun hwn yn datblygu sgiliau iaith yn ogystal â sgiliau llythrennedd y disgyblion.

Maes Dysgu a Phrofiad y wers yma oedd leithoedd, Llythrennedd a Chyfthrebu. Dewisais y dystiolaeth am ei fod yn dangos sylwadau fy mentor a fy nhwitor proffesiynol ar fy ymrwymiad i gynllunio ac i ddysgu yn drawsgwricwlaidd. Ciplun o adroddiad fy nghyfarfod monitro cynnydd rhwng fy nhwitor proffesiynol a'n mentor ar gyfer Bloc1, PAP1 yw hon. Ffocws y wers yma oedd cynllunio ymson. Fe adeiladwyd hwn ar waith iaith ymson fe gynhaliwyd fy nisgyblion y bore hynny. O'r wers foreol roedd ganddynt y disgyblion yr offer; felly yn y wers yma roeddent yn defnyddio'r offer yma i gynllunio ymson eu hun ar sail Blits Abertawe. roedd pwyslais ieithyddol ar y dasg - e.e.. roeddwn eisiau gweld defnydd eang o'r ffurf bresennol gryno – ond roedd rhaid gwneud hyn yn drawsgwricwlaidd am eu bod yn meddwl am nodweddion ymosodiad 'Blits'.

Asesiad ffurfiannol ar wefan y Bartneriaeth Addysgu Broffesiynol Yr Athrofa

Mae'r darpar athro'n arddangos gwybodaeth am addysgeg a disgyblaethau perthnasol o fewn, ac ar draws, cynnwys pynciau, meysydd dysgu, a themâu drawsgwricwlaidd; mae hefyd yn arddangos dealltwriaeth o hyn ac yn cynllunio'n briodol yn ôl hynny. Mae'r gwaith cynllunio'n dangos ymwybyddiaeth gadarn o ddogfennau'r cwricwlwm cenedlaethol a sgiliau'r fframwaith llythrennedd a rhifedd. Mae'r darpar athro'n arddangos gwybodaeth am anghenion pob dysgwr, a dealltwriaeth o'r anghenion hynny, wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. Gweithiodd yn effeithiol i fireinio ei sgiliau gwahaniaethu. Mae'r darpar athro'n arddangos dealltwriaeth o sut mae dysgu'n datblygu fesul tipyn, gam wrth gam gan adeiladu ar brofiadau blaenorol a'r hyn a ddysgwyd o'r blaen. Gweithiodd yn effeithiol i gynnwys adalw dysgu blaenorol fel rhan naturiol allweddol o gyflwyniadau gwersi. Mae ei waith cynllunio ar gyfer cynnydd yn adeiladu ar hyn. Mae'r darpar athro'n gwybod am yr egwyddorion sydd ynghlwm wrth ddylunio'r cwricwlwm ac arloesi, ac mae'n eu deall ac yn ymwneud â nhw. Mae hefyd yn datblygu themâu drawsgwricwlaidd sy'n berthnasol i feysydd dysgu ac mae'n gallu cyfiawnhau ei benderfyniadau. Targed: Parhau i arbrofi gyda dulliau o weithio'n draws-cwricwlaidd e.e cyfuno tasgau TGCH rhifedd gyda gwaith thema. Defnyddio mwy o ystod o ddulliau addysgol creadigol.


Mae'r uchod yn dystiolaeth o'n hasesiad ffurfiannol ar wefan Partneriaeth Addysgu Broffesiynol Yr Athrofa, sef www.swwcte.ac.uk. Dewisais yr uchod am ei fod wedi ysgrifennu ar gyfer corff allanol gan berson diduedd, proffesiynol a gwrthrychol sef fy mentor Bloc1, PAP1. Mae'r uchod yn rhoi llawer o foddhad i mi, am ei fod yn dangos fy ymrwymiad i weithredu fy Nghyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd. Serch hynny, mae yna feysydd i mi wella er enghraifft i ddefnyddio mwy o ystod o ddulliau addysgol creadigol.

Gwers lechyd a Lles ar effeithiau ar blant o fod yn Faciwî

Darpar Athro	Matthew James	Dosbarth:	Pwyl - Bl.6
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Addysg Bersonol a Chymdeithasol	Dyddiad:	20/11/2019
Ffocws Gwers:	Ymchwilio i effeithiau ar blant o fod yn Faciwî		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	<u>Fframwaith Llythrennedd</u> Llinyn: llafaredd. Efen: datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau. Agwedd: siarad: mynegi materion a syniadau'n eglur gan ddefnyddio geirfa arbenigol ac enghreifftiau; defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol; meithrin cywirdeb ar lafar. Agwedd: gwrandio: gwrandio'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o gasgliadau neu farn y siaradwyr. Agwedd: cydweithio a thrafod: cyfrannu'n bwrpasol i drafodaeth grŵp er mwyn dod i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt; mynegi barn yn glir bynciau a thestunau ysgrifenedig gan gynnig rhesymau i gefnogi barn; cytuno pwyntiau o drafodaeth grŵp gan gytuno neu anghytuno a rhoi rhesymau. Llinyn: ysgrifennu. Efen: ysgrifennu'n gywir. Agwedd: iaith: defnyddio iaith sy'n briodol gan gynnwys Cymraeg safonol; defnyddio geirfa amrywiol a phriodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc penodol; dewis a defnyddio ystod eang o eiriau dychmygus a mentrus yn gywir. Efen: ysgrifennu'n gywir. Agweddau: cystrawen, atalnodi, sillafu a llawysgrifen: cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac yn ddarllenadwy.		
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau	Hanes - Y Blits/Yr Ail Ryfel Byd Iechyd a Lles		

Maes Dysgu a Phrofiad y wers yma oedd Iechyd a Lles (neu Addysg Berthnasol a Chymdeithasol (ABCh)). Bwriad y wers yma oedd i'n fyfyrwyr defnyddio'u wybodaeth o wersi blaenorol o'n wersi finau â'r athro dosbarth er mwyn llunio map meddwl i gategorïo ac ymddangos y wahanol effeithiau ar blant o fod yn Faciwî. Roedd rhaid iddynt dangos empathi wrth roi eu hunain mewn sefyllfa plant trefol adeg yr Ail Ryfel Byd ac ystyried effeithiau neu ganlyniadau arnynt nhw petai nhw'n byw yn yr oedran hynny. Dewisais y dystiolaeth uchod am ei fod yn dangos gwahanol linyddau o'r Cwricwlwm Llythrennedd Trawsgwricwlaidd a'i elfennau a/neu agweddau megis llafaredd (siarad, gwrandio a chydweithio â thrafod); ac ysgrifennu (defnyddio'r iaith briodol a safonol ac ysgrifennu'n gywir).

Dangosir yr isod y gwaith a gynhyrchir fy nisgyblion ar ddiwedd y dasg. Gwelwn eu bod wedi mynd i ymdrech a manylder enfawr wrth ystyried yr effeithiau ar blant.



Nod: Trafod yr effeithiau ar blant o fod yn Faciwî.

Gwers creu Taenlen ar Ystadegau'r Faciwîs yn yr Ail Ryfel Byd

Cynllun Gwers Gam 1

Cynllun Gwers - Cam 1 Cynllun Gwers



Darpar Athro	Matthew James	Dosbarth:	Pwyll - Bl.6
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Cymhwysedd Digidol	Dyddiad:	19/11/2019
Ffocws Gwers:	Creu taenlen a defnyddio fformiwla i ymdrin ag ystadegau		
Cysylltiadau ystyrion â'r Cwricwlwm	Fframwaith Cymhwysedd Digidol Llinyn: Data a meddwl cyfrifiadurol. Elfen: datrys problemau a modelu: arddangos sut mae algorithm yn ddefnyddiol ar gyfer cynrychioli datrysiad i broblem trwy ei brofi. Llinyn: Data a meddwl cyfrifiadurol. Elfen: data a llythrennedd gwybodaeth: llunio a holi setiau o ddata er mwyn arbrofi neu i gefnogi ymchwiliad.		
Cysylltiadau ystyrion â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Mathemateg. Llinyn: defnyddio sgiliau rhif. Elfennau: casglu a chofnodi data, cyflwyno a dadansoddi data a dehongli'r canfyddiadau: cyflwyno data drwy ddefnyddio tablau. Hanes - Y Blits/Yr Ail Ryfel Byd Daearyddiaeth: dinasoedd ac ardaloedd o gwmpas Cymru, Prydain a'r byd.		

Mae'r uchod a'r isod yn dangos fy ymrwymiad o weithio'n drawsgwricwlaidd gan fy mod wedi cyfuno tasg ddigidol (TGCh) a rhifedd efo'i thema'r tymor. Gweithiais efo grwpiau bychan (15 o blant mewn pob sesiwn) wrth ddysgu'r dasg yma, am fod y fy nisgyblion ond yn dechrau ar Excel ac nad oeddent wedi cyfrifo ateb trwy ddefnyddio fformiwla o fewn y meddalwedd yma. Mae'r uchod yn dangos llinynnau o gwricwla Cyfnod Allweddol Dau ar gyfer Cymhwysedd Digidol â Mathemateg a Rhifedd.

Mae ciplun o'r daenlen a greon nhw isod. Un maen prawf o lwyddo yn y dasg yma oedd mewnbynnu'r data a rhoddwyd (ar daflen) i mewn i dabl yn Excel. Gweler y bocs sydd wedi amlygu efo gwyrdd; roedd rhaid i'n nisgyblion cyfrifo cyfanswm y nifer o Faciwîs yn y ddau dabl gan ddefnyddio algorithm, ac nid ond trwy fewnbynnu'r rhif. Mae hwn yn cysylltu lan efo elfennau'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol CA2 a ddangosir uchod. Roedd yn bosib gwirio atebion fy nisgyblion wrth grwydro ac ymweld â cholofnau B8 a B21 er mwyn gweld y fformiwla yn ymddangos pan fyddaf yn clicio arnynt.

B21

✕

✓

fx

=SUM(B12:B20)

	A	B
1	Cyfanswm 2 diwrnod ym mis Medi 1939 (Gweithrediad Pied Piper)	
2	Pryd/Ileoliad/pwy	Nifer o bobl
3	Plant oedran ysgol	827,000
4	Mamau a phlant ifanc	524,000
5	Menywod beichiog	13,000
6	Pobl anabl	70,000
7	Athrawon	103,000
8	Cyfanswm 2 diwrnod ym mis Medi 1939	1,537,000
9		
10	Cyfanswm ym Mhrydain (erbyn diwedd y rhyfel yn 1945)	
11	Pryd/Ileoliad/pwy	Nifer o bobl
12	13eg-18fed o Fehefin 1940 (Cwymp Ffrainc)	100,000
13	o Gvffandir Ewrop (erbyn Mehefin 1940)	30,000

11	Pryd/lleoliad/pwy	Nifer o bobl
12	13eg-18fed o Fehefin 1940 (Cwyp Ffrainc)	100,000
13	o Gyfandir Ewrop (erbyn Mehefin 1940)	30,000
14	o 20fed i'r 24ain o Fehefin o'r Ynysoedd y Sianel (e.e. Jersey, Guernsey)	25,000
15	o Leeds	40,000
16	i Ganada (Mehefin-Medi 1940)	1,532
17	i Gymru	200,000
18	Chwefror 1941 (y symudiad mwyaf o'r Ffaiwîs ar un adeg)	1,370,000
19	Diwedd 1943	350,000
20	Erbyn Medi 1944	1,500,000
21	Cyfanswm ym Mhrydain (erbyn diwedd y rhyfel)	3,616,532

Opsiwn 3: "Mae addysgu a dysgu da'n creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu."

Tuesday, December 31, 2019 1:15 PM

Datrys problemau geiriol mathemategol, sydd o fewn cyd-destun bywyd go-iawn

7. Dangosir isod prisiau am fwyd mewn siop pysgod a sglodion.

Pysgodyn £3.50	Pys 60c
Selsig £1.50 yr un	Pys 'mushy' 80c
Sglodion (bag bach) £1.50	Sglodion (bag mawr) £2.00

Mae Alffi yn prynu 1 bag mawr o sglodion, pysgodyn a phys. Faint mae e'n talu?

Mae Megan yn prynu 2 bagiau bach o sglodion, pysgodyn a selsig. Faint yn fwy mae Megan yn ei dalu na Alffi?

8. Prynodd Dafydd 3 lyfr. Mae pob llyfr yr un pris. Fe rhoddodd £10 mewn arian parod a derbynodd £2.50 mewn newid. Beth yw cost un llyfr?

9. Cost gêm Minecraft ar gyfrifiadur o Amazon yw £17.20. Mae Carys eisiau set o glustffonau - y gost yw £19.99. Mae gan Carys £40.00 i'w wario - faint o newid bydd hi'n ei chael?

10. Fel rhan o ddêl Dydd Gwener Du, mae Amazon yn cynning 50% i ffwrdd ar gêm Minecraft. Faint bydd Carys yn gwario nawr? Faint o newid bydd hi'n ei chael yr wythnos yma?

Maes Dysgu a Phrofiad y wers yma oedd Mathemateg a Rhifedd. Pwrpas y wers oedd cymhwyso eu haddysgu blaenorol o dechnegau ar ddatrys problemau ariannol mewn cyd-destun bywyd go-iawn (gweler yr uchod). Mi ddewisais y dystiolaeth uchod ac isod am eu bod yn arddangos fy nghysegriad i roi problemau mathemategol mewn cyd-destun dilys i fyd y plant a bywyd pob dydd. Trwy dangos problemau mathemategol mewn megis cyd-destun siop pysgod a sglodion, mae'n wneud y dasg yn berthynol ac yn gymhwysol i fywyd tu fas gatau'r ysgol ac ar ôl i gyfnod nhw yn yr ysgol dod i ben.

9. Cost gêm Minecraft ar gyfrifiadur o Amazon yw £17.20. Mae gan Carys £40.00 i'w wario - faint o newid bydd hi'n ei chael?

10. Fel rhan o ddêl Dydd Gwener Du, mae Amazon yn cynning 50% i ffwrdd ar gêm Minecraft. Faint bydd Carys yn gwario nawr? Faint o newid bydd hi'n ei chael yr wythnos yma?

⑦ Os bydd Alffi'n prynu 1 bag mawr o sglodion, pysgodyn a phys
bydd Alffi'n talu £6.10.

$$\begin{array}{r} £2.00 \\ £3.50 \\ £0.60 \\ \hline £6.10 \end{array}$$

Os bydd Megan yn prynu 2 bagiau bach o sglodion, pysgodyn a selsig bydd hi'n talu £8.00.

$$\begin{array}{r} £1.50 \\ £1.50 \\ £3.50 \\ £0.80 \\ \hline £8.00 \end{array}$$

£40.00 - £19.99 = £20.01

Creu Taenlen ar Berfformiad Hanesyddol Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd

Darpar Athro	Matthew James	Dosbarth:	Pwyll – Bl.6
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Gwyddoniaeth a Thechnoleg/TGCh	Dyddiad:	03/12/2019
Ffocws Gwers:	Creu taenlen ar berfformiad hanesyddol Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd a defnyddio fformiwlâu i ymdrin a'r ystadegau yma		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	Fframwaith Cymhwysedd Digidol Llinyn: Data a meddwl cyfrifiadurol. Elfen: datrys problemau a modelu: arddangos sut mae algorithm yn ddefnyddiol ar gyfer cynrychioli datrysiad i broblem trwy ei brofi. Llinyn: Data a meddwl cyfrifiadurol. Elfen: data a llythrennedd gwybodaeth: llunio a holi setiau o ddata er mwyn arbrofi neu i gefnogi ymchwiliad.		
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Mathemateg. Llinyn: defnyddio sgiliau rhif. Elfennau: casglu a chofnodi data, cyflwyno a dadansoddi data a dehongli'r canfyddiadau: cyflwyno data drwy ddefnyddio tablau.		
Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol) Addysgeg: Mireinio: Rheoli'r amgylchedd dysgu.			

Ystadegau hanesyddol perfformiad Cymru yn Nghwpan y Byd Rygbi				
Home Insert Draw Page Layout Formulas Data Review View				
C13 =SUM(C3:C12)				
A	B	C	D	E
1	Perfformiad hanesyddol Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd - defnyddiwch hwn fel enw eich dogfen ar y top!!!			
2	Twrnament (blwyddyn)	Nifer o bwyntiau a sgoriwyd gan Gymru	Pwyntiau yn erbyn Cymru	Amrediad (gwahaniaeth) rhwng Colofn B a Colofn C
3	1987	126	104	22
4	1991	32	61	-29
5	1995	89	68	21
6	1999	127	95	32
7	2003	129	126	3
8	2007	168	105	63
9	2011	228	74	154
10	2015	130	85	45
11	2019	189	147	42
12				
13	Cyfanswm	1218	865	
14	Cymedr	135.3333333	96.11111111	
15	Amrediad	228	147	
16	Canolrif			
17	Pa dwrnamaint sy'n dangos y gwahaniaeth mwyaf rhwng y pwyntiau mae Cymru wedi sgorio ac ildio?			
18	Pa dwrnamaint wnaeth Cymru sgorio'r mwyaf o bwyntiau?			
19	Pa dwrnamaint wnaeth Cymru ildio'r mwyaf o bwyntiau?			

Maes Dysgu a Phrofiad y wers yma oedd Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Nod y wers oedd defnyddio fformiwlâ o fewn meddalwedd Microsoft Excel, er mwyn ymdrin â'r ystadegau a arddangoswyd. Dewisais Excel am fod Fframwaith Cymhwysedd Digidol Blwyddyn Chwch yn gofyn am "datrys problemau a modelu: arddangos sut mae algorithm yn ddefnyddiol ar gyfer cynrychioli datrysiad i broblem trwy ei brofi". Mi fydd cyfrifo ystadegau megis cyfanswm, cymedr, amrediad a'r canolrif yn helpu'r myfyrwyr i feddwl yn ddadansoddol ac yn gritigol. Wrth ateb y cwestiynau sydd oddi tano'r ystadegau maen nhw wedi newydd gyfrifo, roedd rhaid iddyn nhw bwyso a mesur wrth ystyried pa dwrnamaint oedd y mwyaf buddiol yn ystadegol, gan gefnogi eu datganiadau efo tystiolaeth.

Defnyddiais rygbi ac yn enwedig Perfformiad Hanesyddol Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd am fod Cwpan Rygbi'r Byd ond wedi gorffen tua mis cyn y wers yma – felly mae'n debygol roedd y twrnaint dal yn feddyliau diweddar fy nisgyblion. Yn ychwanegol, roedd edrych ar berfformiad Cymru yn bwrpasol gan fod y nifer helaeth ohonynt yn Gymry.

Ymweld â Sioe ar Blits Abertawe





Mae'r uchod yn dystiolaeth o Sioe Blits fe ymwelon fesul dosbarth yn neuadd fy ysgol PAP1. Defnyddir yr actor propiau megis gwrthrychau domestig, dillad a ffotograffau o'r cyfnod hynny er mwyn cyfleu'r hyn oedd yn digwydd. Roedd gofyn i'r disgyblion i wirfoddoli yn ymglymu nhw efo'r sioe yn fwy tyn.

Adfyfyrion beirniadol ar sut yr ydwyf wedi gweithredu argymhellion y tair egwyddor addysgegol a ddewiswyd

Thursday, January 2, 2020 1:55 PM

"Mae addysu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu."

Roedd rhannu'r meini prawf gyda'r dysgwyr – yn enwedig y rai cynigodd fy nisgyblion – yn fuddiol iawn. Ar ddechrau fy mhrofiad, wnes i ddim ystyried gwneud hyn – wrth adlewyrchu yn ôl ar yr wythnosau cynnar, roedd pallu wneud hwn yn wastraff cyfle. Ond, wrth symud trwy Bloc1 PAP1, roedd rhannu'r meini prawf (hyd yn od y rai osodais heb ddefnyddio llais y plentyn) efo'n ddisgyblion yn dechneg bwerus iawn. Wrth symud trwy Bloc1, ac ar ôl arsylwad a thrafodaeth broffesiynol efo'n uwch fentor, deffrais i'r ffaith taw meini prawf nid i finnau ond i'n myfyrwyr yw'r rhain. Wrth agosáu tuag at ddiwedd Bloc1, fe ddefnyddiais lais y disgybl wrth ofyn iddyn nhw i gydweithio i osod meini prawf ar gyfer tasg; i ategu at faen prawf penodol o'n ni angen gweld. Roedd gofyn am lais fy nisgyblion yn grymuso nhw, am fy mod yn parchu nhw wrth ddangos parodrwydd i wrando ar eu llais nhw. Yn ogystal â hynny, gan taw y myfyrwyr sydd wedi cynnig y meini prawf, caiff eu geirio o fewn iaith sy'n briodol iddyn nhw, felly mae'n wneud gwell synnwyr iddyn nhw. O ganlyniad i rannu meini prawf efo'n nisgyblion a'i chyd-osod cyn ymwneud â'r dasg, roeddynt yn gwbl glir ar beth oedd eu hangen er mwyn llwyddo yn y dasg yna.

Yn gyferbyniol efo'r dull traddodiadol o "cywir" a "anghywir" neu "tic" a "chroes", roedd gymhwysiad cynllun marcio fy ysgol PAP1 yn ddefnyddiol iawn. Yr esiampl a ddangosais yw gwaith mathemateg; roedd "gwyrdd am wella" yn hybu i'r myfyriwr yma cymryd cyfrifoldeb a pherchnogaeth dros waith ei hunain (sydd Egwyddor Addysgeg Donaldson #10) am eu fod angen adlewyrchu ar eu cynnig gwreiddiol a rhoi ail-cynning iddi. Nhw sydd angen cymryd y fenter a gweithio'n annibynnol wrth ddatrys y broblem, ac nid dibynnu ar yr athro i roi'r ateb.

Ambell waith, roedd cysyniadau mawr oedd angen eu cyflwyno. Ar ôl cyfnod agoriadol, roedd angen i fy myfyrwyr mynd ati i gael ymarfer rhydd o'r dasg a gyflwynwyd. Ar y cyfan, nad oedd eu hangen, am fod y myfyrwyr yn deall gofynion y dasg. Y mwyafrif o'r amser, rhywbeth digymell oedd cynnwys mini plenary – addasiad finnau i'r sefyllfa yn deillio o'n greddf, yn lle rhywbeth wnes i gynllunio yn fanwl ac yn goncrit ar eu chyfer. Roeddwn yn hapus efo'n defnydd o fini plenaries – mater o fod yn gall a phigo a dewis yr amser addas i'w ddefnyddio oedd eu defnydd.

"Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer."

Rwyf yn hapus efo'n hymdrechion i weithredu a sicrhau fy Nghyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd i'n myfyrwyr. Dangosir y daenlen Ystadegau'r Faciws yr Ail Ryfel Byd fy mod wedi cyfuno tasg cymhwysedd digidol efo'i thema'r tymor a rhoi dimensiwn rhifiadol iddo. Sylwir ar adroddiad fy nghyfarfod monitro cynnydd ar ddiwedd Bloc1, rwyf wedi gweithio i ymestyn elfennau o llythrennedd fy nisgyblion megis eu geirfa, trwy eu gwneud yn drawsgwricwlaidd. Yn ogystal â hynny, nodir fy asesiad ffurfiannol ar wefan y Bartneriaeth Addysgu Broffesiynol Yr Athrofa fy mod wedi datblygu a gweithredu themâu trawsgwricwlaidd sy'n berthnasol i feysydd dysgu ac rwyf allu cyfiawnhau fy mhenderfyniadau.

Yn Lloegr, fe gadarnhaodd y corff arsylwi Ofsted yn 2010 "in successful schools applying cross-curricular initiatives, 'the distinctiveness of individual subjects was not diminished'" (Barnes 2015, t.57).

Er bod Ofsted wedi'i yn Lloegr ac nid yng Nghymru, diddymir y dyfyniad uchod unrhyw bryderon ynglŷn â gweithredu medrau megis llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn drawsgwricwlaidd – nid ydynt yn lleihau hynodrwydd y pynciau unigol. Ar gyfer fy nyfodol, mi fyddaf yn ymdrechu i arbrofi efo dulliau i gyflwyno a chyfuno testunau'n drawsgwricwlaidd mewn ffyrdd mwy gweledol a chreadigol.

Roedd cyflwyno gwaith damcaniaethol a galed yn drawsgwricwlaidd yn ofnadwy o fuddiol, am ei fod yn helpu rhoi ystyr a chymhwysiad i'r theori graidd. Ambell waith, nad oedd hwn yn digwydd o fewn un wers neu o fewn un ddiwrnod. Rhoddir llawer o broblemau mathemategol o fewn cyd-destun

trawsgwricwlaidd y diwrnod ar ôl i'w chyflawni yn amrwd, am fod angen gwersi cyfan i ymdrin â'r cysyniadau, yn enwedig y rhai heriol megis lluosol rhifau ddau a tri digid efo rhifau ddau ddigid. Gwelswn y defnydd o wneud hyn, am ei fod yn rhoi cymhwysiad i'r dull mathemategol penodol. Yn ogystal â hynny, mae darllen cwestiynau geiriol mathemategol yn rhoi perthnasedd i sgiliau llythrennedd, am fod y myfyrwyr yn gweld nad yw medrau megis rhifedd a llythrennedd yn arunig neu'n ynysig, ond maent yn fwy pwerus pan yn atgyfnerthu eu gilydd nag ar ben eu hun. Mae'r gyferbyn yn gweithio wrth er enghraifft darllen deunydd a gweld ffigyrau ac ystadegau – gweler addysgu mwy holistaidd pan mae cyfuniad o rifedd a llythrennedd. Mae'r un rhesymeg yn gweithio wrth gyfuno Cymhwysedd Digidol – gwelwn nerth aruthrol i'r hyn pan gaiff ei chyfuno efo Rhifedd Trawsgwricwlaidd a Llythrennedd Trawsgwricwlaidd. Rwy'n dod i'r casgliad mae'r tair medr sylfaenol yma'n bwerus tu hwnt pan gaiff ei chyfuno a'i weithredu mewn modd trawsgwricwlaidd, fel y gwelwn yn Donaldson (2015).

"Mae addysgu a dysgu da'n creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu."

Rhoddais gwestiynau geiriol, mathemategol o fewn cyd-destun bywyd pob dydd megis Siop Pysgod a Sglodion er mwyn i'n fyfyrwyr gweld perthnasedd a phwysigrwydd ymarfer eu sgiliau rifedd megis ymdrin ag arian. Sylwais roedd nifer o'm myfyrwyr yn ymfalchio'n fawr mewn gêm cyfrifiadur MineCraft. Nodir Barnes:

Learning new knowledge and skills does not happen without the child's agreement. Effective teachers gain this agreement by working with the child to identify what is personally engaging to them and by linking it to the new knowledge required by the curriculum (Barnes 2015, t. 195).

Ofynnir y cwricwlwm y sgil penodol (i ddatrys problemau ariannol) ac er mwyn hwyluso'r addysgu, roedd angen ei rhoi o fewn cyd-destun sy'n berthynol iddyn nhw. Esiampl nodedig ar fy ngwaith ar weithredu'r egwyddor hon yw rhoi cwestiwn mathemategol o fewn cyd-destun MineCraft. Yn ogystal â hynny, gwelir cyd-destun cyfoes megis 'Dydd Gwener Du', am ddysgais y wers yma tuag at ddiwedd mis Tachwedd. Credaf roedd yn arfer dda nag ond i roi'r gwaith mewn cyd-destun ymarferol, ond i'w roi o fewn cyd-destun sy'n berthynol i'r hyn sy'n digwydd yn y diwrnod neu'r wythnos bresennol. Teimlaf yn gryf os gwelith myfyriwr unrhyw oedran defnydd y sgil yn ei bywyd dyddiol, i fydd y myfyriwr yna yn fwy awyddus i ddysgu a chymhwyso'r sgil yna. Credaf fy mod wedi gweithio'n galed i ddysgu hwn i'n ddosbarth.

Mae fy Ysgol PAP1 yn ymfalchio yn enfawr yn y maes chwaraeon; mae nifer ohono fy nisgyblion BL6 yn ymrwymo efo chwaraeon, gan gynnwys rygbi. Yn sgil hynny, credaf roedd yn ffafriol i roi gwers ar Excel ac ystadegau trwy gyd-destun perfformiad hanesyddol Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd. Ymgodwyd sawl cyd-destun o'r wers yma: ychydig o hanes (gan fod y twrnaint cyntaf wedi dechrau 33 o flynyddoedd yn ô), rygbi, Cwpan Rygbi'r Byd a rhoddir dimensiwn Cymraeg mawr iddo. Gwelswn ddiddordeb mawr yn llygaid fy nisgyblion wrth geisio dadansoddi a gwneud synnwyr o'r data a rhoddwyd.

Wrth gyfleu ein thema – sef y Blits – mewn sioe, gwelwn ddysgu cyd-destunol ac ystyrlon yn lle'r dulliau addysgu traddodiadol megis addysgu "rote" neu ar y cof. Fe wnaeth yr actor ymfalchio'n fawr am ei chysylltiad hi efo Blits Abertawe – roedd ei fam-gu yn berchen i siop yn Abertawe adeg y Blits – ac mae hwn yn rhoi enghraifft benodedig i'r disgyblion o berson a chafodd eu heffeithio gan y fomio. Teimlais deffroad mawr yn digwydd o ganlyniad i'r sioe, am ei wedi dod a'n thema yn fyw ac yn ddiriaethol i'm myfyrwyr. Ynghlwm y thema fawr, sef yr Ail Ryfel Byd, roedd nifer eang o gysyniadau i'w chyfleu, roedd rhaid defnyddio cyd-destun dilys er mwyn cyfleu negeseuon a digwyddiadau mawr y rhyfel. Teimlaf fy mod wedi ymdrechu i wneud yr hyn, ond y tro nesaf mi fyddaf yn medru gwneud y rhyfel yn fwy perthynol i fywyd y wlad a'r ardal leol, am y tro yma rhoddais bwyslais mawr ar ddinasoedd megis Abertawe a Gaerdydd.

Casgliadau ynghylch cynnydd o ran gweithredu

Yn deillio o'r portffolio yma, mae gen i awgrymiadau ar gyfer fy nyfodol yn y maes dysgu. Mi fyddai'n wneud defnydd ehangach o asesu ar gyfer dysgu, yn enwedig technegau megis Meddwl-Paru-Rhannu. Mi fyddai'n cymhwyso hunanasesu ac asesiad-pâr yn fwy eang. Fe fyddai'n ymfalchio'n fawr i rannu'r meini prawf efo'n nisgyblion cyn y wers – fel eu bod yn hollol glir sut i lwyddo. Mae fy nosbarth nesaf yn BL1, felly mae'n hollol bwysig fy mod yn gwneud fy nisgwyliadau yn gwbl glir iddynt. Mi fyddwn yn parhau i arbrofi gyda dulliau amryw o gyfuno themâu trawsgwricwlaidd, fel y

gosodir fel targed gan fy mentor Bloc1. O ran cyd-destunau dilys ar gyfer fy nisgyblion, mi fyddaf yn medru cadw cyd-destun y thema gyfannol mor agos ato eu byd a'i fywyd nhw, fel bod yr addysgu yn wneud synnwyr iddynt. Byddai'n defnyddio eu llais nhw am beth sydd o ddiddordeb iddynt am eu themâu'r nes ymlaen. Maes ar gyfer fy natblygiad yw datblygu fy null o gyflwyno testun; mae angen i mi wneud defnydd ehangach o ddulliau addysgol creadigol.

Cyfeirnodau

Tuesday, December 31, 2019 1:17 PM

- AUSUBEL, D.P., 1968. *Educational psychology*. New York [u.a.]: Holt, Rinehart and Winston.
- BARNES, J., 2015. *Cross-Curricular Learning Ages 3-14*. Third Edition edn. London: SAGE Publications.
- BLACK, P. and WILIAM, D., 1998. Assessment and classroom learning. *Assessment in Education*, 5(1), pp. 7-73.
- BLACK, P. and WILIAM, D., 2009. Developing the theory of formative assessment. *Educational Assessment, Evaluation and Accountability (formerly: Journal of Personnel Evaluation in Education)*, 21(1), pp. 5-31.
- BREDO, E., 1997. The social construction of learning. G. D. Phye (Ed.) *Handbook of academic learning: construction of knowledge (San Diego, CA, Academic Press)*, .
- DEWEY, J., 1968. *Experience and education*. 9.print. edn. New York: Collier books.
- DONALDSON, G., 2015. *Dyfodol Llwyddiannus*.
- DRUMMOND, M.J., 2003. *Assessing Children's Learning*. England: Routledge.
- EARL, L., 2013. *Assessment as Learning: Using Classroom Assessment to Maximize Student Learning*.
- ENGESTRÖM, Y., 1999. Activity theory and individual and social transformation. *Perspectives on Activity Theory*. Cambridge University Press, pp. 19-38.
- ENTWISTLE, N., 2000. Promoting Deep Learning through Teaching and Assessment: Conceptual Frameworks and Educational Contexts. *Teaching and Learning Research Programme (TLRP)*, .
- ESTYN, 2018-last update, Cynllun cwricwlwm creadigol mwy hyblyg i ennyn diddordeb disgyblion. Available: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cynllun-cwricwlwm-creadigol-mwy-hyblyg-i-ennyn-diddordeb-disgyblion> [04/01/, 2020].
- ESTYN, 2016-last update, Themâu trawsgwricwlaidd sy'n datblygu medrau allweddol disgyblion. Available: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/themâu-trawsgwricwlaidd-sy'n-datblygu-medrau-allweddol-disgyblion?_ga=2.146846514.447815475.1578052874-1045142616.1578052874 [04/01/, 2020].
- GARDNER, H., 1993. *Frames of mind*. 2. ed. edn. London: Fontana Press.
- MARSHALL, B. and JANE DRUMMOND, M., 2006. How teachers engage with Assessment for Learning: lessons from the classroom. *Research Papers in Education*, 21(2), pp. 133-149.
- MARTON, F., 1997. *Learning and awareness*. Mahwah, NJ: Erlbaum.
- MICHAEL GLASSMAN, 2001. Dewey and Vygotsky: Society, Experience, and Inquiry in Educational Practice. *Educational Researcher*, 30(4), pp. 3-14.
- POLLARD, A., 2014. *Readings for reflective teaching in schools*. 2. ed. edn. London [u.a.]: Bloomsbury.
- VYGOTSKY, L.S., COLE, M., JOHN-STEINER, V., SCRIBNER, S. and SOUBERMAN, E., 1978. *Mind in Society*. Cumberland: Harvard University Press.
- WILIAM, D. and THOMPSON, M., 2008. Integrating assessment with instruction: What will it take to make it work? In C. A. Dwyer (Ed.), *The future of assessment: Shaping teaching and learning*, (Mahwah, NJ: Lawrence Erlbaum Associates.), pp. (pp. 53-82).
- WILIAM, D., 2011. What is assessment for learning? *Studies in Educational Evaluation*, 37(1), pp. 3-14.